AQA CCEA OCR Pearson CBAC

# Canllawiau ynghylch trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol pan fydd ymgeisydd yn newid canolfan

Mae'r CGC a'r cyrff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC sy'n cynnig cymwysterau TAG UG, Safon Uwch a TGAU yn deall yn llawn yr heriau y mae canolfannau'n eu hwynebu, yn enwedig colegau, wrth ymdrin â gweinyddu trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol lle mae ymgeisydd wedi symud canolfannau ôl 16. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n ailsefyll cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a/neu Fathemateg. Yn aml, ychydig o wybodaeth fydd gan y coleg am anghenion yr ymgeisydd ac ychydig o amser fydd gan y coleg i gasglu tystiolaeth briodol cyn ailsefyll TGAU Saesneg Iaith a/neu Mathemateg .

Mae cadernid a thegwch yn ofynion hanfodol o ran cynnal uniondeb y broses. Dylai'r trefniant/trefniadau ond gael ei ddyfarnu i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf cyhoeddedig, gyda'r dystiolaeth ofynnol yn ei lle.

## Lleihau biwrocratiaeth a baich

Un o nodau allweddol y CGC a'r cyrff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC yw lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion a cholegau. Dros y 15 mlynedd diwethaf rydym wedi cymryd camau sylweddol i leihau biwrocratiaeth a baich.

Yn bennaf:

- drwy ddirprwyo **19 o drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol** i ganolfannau. **Nid oes** angen cais ar-lein ar drefniadau o'r fath nac, yn y rhan fwyaf o achosion, unrhyw dystiolaeth o angen. Mae'r Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, wedi'i rymuso ar lefel leol i benderfynu pa mor briodol a rhesymol yw'r trefniant;

- drwy gyflwyno *Trefniadau mynediad ar-lein*, mae'r broses o wneud cais am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol wedi'i symleiddio. Caiff tua 90% o geisiadau eu cymeradwyo'n awtomatig gan y system ar-lein lle mae'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer y trefniant/trefniadau;

- os oes gan ymgeisydd anhawster dysgu wedi'i gadarnhau, gyda Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn, a bydd yn parhau i fod angen **25% o amser ychwanegol** a/neu **ysgrifennydd**, gellir trosglwyddo'r Ffurflen 8 o un ganolfan i'r llall. Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn hefyd lle bydd angen **darllenydd cyfrifiadur/darllenydd ar ymgeisydd yn ogystal â 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd**.

**Pa wiriadau sydd angen eu gwneud pan dderbynnir Ffurflen 8 o ganolfan arall?**

Er enghraifft, pan fo coleg yn derbyn Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn gan ysgol, **rhaid** i'r gwiriadau canlynol gael eu gwneud gan y Tîm Anghenion Ychwanegol/Cefnogaeth Dysgu:

- A yw Rhan 1 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau? A oes digon o wybodaeth yn Rhan 1 sy'n dangos darlun o angen a ffordd arferol o weithio'r ymgeisydd?
- A yw Rhan 2 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau?
- A yw'r profion a gofnodir yn Rhan 2 o Ffurflen 8 yn gyfredol ar ddyddiad yr asesiad, yn briodol i oedran ac wedi'u safoni'n genedlaethol?
- A gafodd yr ymgeisydd ei asesu yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9?
- A yw Rhan 2 o Ffurflen 8 wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr aseswr?
- A ddarparwyd tystiolaeth fod gan yr aseswr, o leiaf, gymhwyster ôl-raddedig mewn asesu arbenigol unigol ar Lefel 7 neu gyfwerth, neu a yw'n aseswr athrawon arbenigol sy'n meddu ar Dystysgrif Ymarfer Asesu SpLD gyfredol, neu a yw'n seicolegydd sydd â chofrestriad HCPC?
- A yw Rhan 3 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau?
- A yw Rhan 3 o Ffurflen 8 wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y Cydlynydd AAA?

Byddai'r gwiriadau uchod hefyd yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn trosglwyddo i ysgol wahanol ar ddechrau Blwyddyn 12 neu'n aros yn yr un ysgol ac yn symud o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12. Byddai Ffurflen 8RF yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau hyn (gweler isod).

**Beth yw'r broses ar gyfer ailsefyll TGAU?**

Os yw ymgeisydd yn dymuno cael ei gofrestru ar gyfer arholiadau TGAU **yng nghyfres arholiadau Tachwedd 2023 neu Fehefin 2024** i wella ar radd flaenorol, gall y Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, drosglwyddo'r Ffurflen 8. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer 25% o amser ychwanegol yn unol â dogfen 2023/24 CGC *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol*.

Os yw'r CAAA, neu aelod cyfatebol o staff, yn fodlon bod yr angen am y trefniant yn dal i fodoli, yna **nid oes rhaid** ailasesu'r ymgeisydd. Gellir trosglwyddo Ffurflen 8 i gefnogi cais ar-lein newydd am **25% o amser ychwanegol** a/neu **ysgrifennydd**.

Gellir hefyd trosglwyddo Ffurflen 8 sydd wedi'i chwblhau'n llawn lle bydd angen darllenydd cyfrifiadur/darllenwr ar ymgeisydd yn ogystal â 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.

**Rhaid** i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen gydsynio data personol ymgeisydd newydd. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan brosesu cais ar-lein newydd gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein*.

**Nid oes** angen samplau o dystiolaeth (e.e. sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu, sampl o ffug bapurau arholiad yn dangos cymhwyso amser ychwanegol neu IEP) am 25% o amser ychwanegol lle mae gan ymgeisydd ddwy sgôr safonol is na'r cyfartaledd sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o

gyflymder gweithio **neu** un sgôr safonol is na'r cyfartaledd **a** sgôr safonol isel sy'n ymwneud â dau faes cyflymder gwahanol o weithio.

Ar gyfer ymgeisydd ag anawsterau dysgu sydd angen darllenydd/darllenydd cyfrifiadurol ond **nad oes** angen amser ychwanegol neu ysgrifennydd arno, **rhaid** cwblhau Ffurflen 9.

**Rhaid** i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen gydsynio data personol ymgeisydd newydd. Yna mae'n rhaid i'r ganolfan brosesu cais ar-lein newydd gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein*.

### A ddylai'r Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, gynhyrchu pro fforma i ddangos bod Rhannau 1, 2 a 3 o Ffurflen 8 wedi'u gwirio?

Gall y Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, gynhyrchu pro fforma syml sy'n dangos bod Rhannau 1, 2 a 3 o Ffurflen 8 wedi'u gwirio a bod y ffurflen mewn trefn. Fodd bynnag, mae archwiliad gweledol trylwyr o Ffurflen 8 yn gwbl dderbyniol.

### Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer ailsefyll TGAU ym mis Tachwedd?

Er mwyn cynorthwyo colegau ymhellach, mae'r dyddiad cau ar gyfer prosesu trefniadau mynediad ar gyfer cyfres TGAU Tachwedd wedi'i ymestyn i 1 Tachwedd. Gellir gwneud ceisiadau hwyr ar ôl 1 Tachwedd, lle bo angen, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer y trefniant (trefniadau) a bod y dystiolaeth ofynnol yn ei lle **cyn** prosesu cais ar-lein cyn arholiad TGAU cyntaf yr ymgeisydd.

### A oes angen gwaith papur ychwanegol pan fydd ymgeisydd yn symud o gymwysterau TGAU i TAG UG a/neu Safon Uwch?

Yn ogystal â'r Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn (lle mae gan ymgeisydd anawsterau dysgu ond nid EHCP cyfredol), **rhaid** i'r Cydlynydd AAA, neu aelod o staff cyfatebol, gwblhau Ffurflen 8RF – *Tystiolaeth i gyd-fynd â Ffurflen 8 pan fydd ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i GCE.*

Bydd hyn yn cadarnhau mai 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd (neu ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd, yn ogystal â 25% amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd) fydd ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio o hyd. Ceir y dystiolaeth gan staff addysgu bod gan yr ymgeisydd anawsterau parhaus a sylweddol, a bod y rhain yn effeithio'n sylweddol ar addysgu a dysgu.

Os yw ymgeisydd yn dechrau cwrs TAG UG blwyddyn neu gwrs TAG Safon Uwch dwy flynedd ym mis Medi 2023, **rhaid** i'r Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, wirio bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig **cyfredol** am 25% o amser ychwanegol, h.y. rheoliadau CGC 2023/24, **cyn** prosesu cais ar-lein newydd am 25% o amser ychwanegol.

**Rhaid** i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen gydsynio data personol ymgeisydd newydd.

**A yw unrhyw gymwysterau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 yn cael eu cynnwys?**

Lle mae'r holl wiriadau gofynnol a restrir ar **dudalen 2** wedi'u gwneud, gellir defnyddio Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn i brosesu cais ar-lein am **25% o amser ychwanegol** a/neu **ysgrifennydd** (neu darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn ogystal â 25% amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd) ar gyfer y mathau canlynol o gymwysterau sy'n dod o dan AARA a *Threfniadau mynediad ar-lein y CGC*:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
- Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach AQA
- Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol AQA
- FSMQ
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt OCR
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt OCR
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC (Dyfarniadau Technegol)
- Cymwysterau Cymhwysol Lefel 3 CBAC

**Rhaid** cwblhau Ffurflen 8RF ar gyfer cymwysterau Lefel 3.

**Beth yw'r broses ar gyfer ymgeisydd ag anghenion cymhleth?**

Lle mae gan ymgeisydd anghenion cymhleth, h.y.

- anghenion cyfathrebu a rhyngweithio; neu
- anhawster dysgu gydag EHCP cyfredol (Lloegr) neu Ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon) neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru); neu
- anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol; neu
- anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl; neu
- cyflwr meddygol a gafodd ddiagnosis ffurfiol gan arbenigwr cofrestredig

**Rhaid** i Ffurflen 9 gael ei chwblhau gan ganolfan newydd yr ymgeisydd i ddangos yr angen parhaus am amser ychwanegol a/neu darllenydd cyfrifiadur/darllenydd a/neu ysgrifennydd.

**Rhaid** i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen gydsynio data personol ymgeisydd newydd. Yna mae'n **rhaid** i'r ganolfan brosesu cais ar-lein newydd gan ddefnyddio *Trefniadau Mynediad ar-lein.*

© CGC 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023